**EOC-01-03(p2)w**

# AN ABSOLUTE DUTY

## ARGYMHELLION A FFYRDD POSIBL O'U GWEITHREDU YN Y CYNULLIAD

| Rhif | Argymhelliad | Ffordd bosibl o'i weithredu | Cyfrifoldeb Grwp / Is-adran |
|---|---|---|---|
| **GOBLYGIADAU LEDLED Y DU** | | | |
| 1. | Pe byddai deddf cydraddoldeb yn cael ei rhoi ar waith ledled y DU, byddai hyn yn arwain at fanteision o ran y modd y mae gweithwyr yn cael eu trin ac yn y modd y cyflawnir gwasanaethau cyhoeddus. | a) Mater i Lywodraeth y DU yw hwn gan nad yw'n fater a ddatganolwyd.<br><br>b) Mae'r Ysgrifennydd Parhaol wedi tynnu sylw Swyddfa'r Cabinet at yr adroddiad, gyda'r nod o'i wneud yn destun ystyriaeth ehangach gan y Gwasanaeth Sifil. | a) Yr Uned Polisi Cydraddoldeb |
| 2. | Hyrwyddir cyfle cyfartal yn fwy effeithiol pe byddai cyrff deddfu eraill y DU yn mabwysiadu 'Model Cymru' o'r ddyletswydd cydraddoldeb statudol. | a) Mae hwn yn fater i gyrff yn Lloegr, Iwerddon a'r Alban sy'n cyfateb i'r Cynulliad.<br><br>b) Bydd y Gweinidog dros Lywodraeth Agored yn tynnu sylw Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill at yr adroddiad hwn. | a) Yr Uned Polisi Cydraddoldeb<br><br>b) Yr Uned Polisi Cydraddoldeb a'r Gweinidog dros Lywodraeth Agored |

## AN ABSOLUTE DUTY

## ARGYMHELLION A FFYRDD POSIBL O'U GWEITHREDU YN Y CYNULLIAD

| Rhif | Argymhelliad | Ffordd bosibl o'i weithredu | Cyfrifoldeb Grwp / Is-adran |
|---|---|---|---|
| **GOBLYGIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL** | | | |
| 3. | Ei gwneud hi'n ofynnol i bwyllgorau pwnc y Cynulliad Cenedlaethol sy'n craffu ar bolisïau nodi, yn eu hadroddiadau blynyddol, sut y mae eu rhaglen waith wedi cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb statudol y Cynulliad. | Rhaid newid y Rheolau Sefydlog er mwyn gosod gofyniad ffurfiol ar y pwyllgorau pwnc. Byddai gofyn i'r Pwyllgor Busnes gytuno ar hyn. Byddai'n rhaid ceisio safbwynt a sêl bendith Panel y Cadeiryddion cyn gwneud hyn.<br><br>Hefyd, byddai'n rhaid ystyried a yw'n briodol gosod y fath ofyniad ffurfiol ar y pwyllgorau pwnc mewn perthynas â chyfle cyfartal heb wneud gofynion tebyg o ran datblygu cynaliadwy a'r Gymraeg. Efallai y byddai'n fwy priodol i'r Panel gytuno i fabwysiadu'r dull hwn <u>heb</u> osod gofyniad Rheol Sefydlog ffurfiol ar y pwyllgorau. Mae cwestiwn hefyd ynghylch pa mor glir yw'r cysylltiad rhwng gweithgareddau'r pwyllgorau (e.e. craffu ar Weinidogion) a dyletswydd cydraddoldeb y Cynulliad. Ond mater i'w drafod gan Banel y Cadeiryddion yw hwn. | Yr Uned Polisi Cydraddoldeb (EPU) i ddarparu llythyr drafft i'r Gweinidog ei anfon i'r Dirprwy Lywydd yn gwahodd Panel Cadeiryddion y Pwyllgorau Pwnc i ystyried a ddylid gweithredu'r argymhelliad hwn a sut orau i wneud hynny. |

**AN ABSOLUTE DUTY**

**ARGYMHELLION A FFYRDD POSIBL O'U GWEITHREDU YN Y CYNULLIAD**

| Rhif | Argymhelliad | Ffordd bosibl o'i weithredu | Cyfrifoldeb Grwp / Is-adran |
|---|---|---|---|
| **GOBLYGIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL (Parhad)** | | | |
| 4. | Ei gwneud hi'n ofynnol i Bwyllgor Sefydlog y Cynulliad ar Gyfle Cyfartal gymeradwyo'n ffurfiol raglenni gwaith yr holl bwyllgorau pwnc yn flynyddol, a sicrhau eu bod yn bodloni gofynion cydraddoldeb. | Er mwyn sicrhau bod dyletswydd cyfrifoldeb statudol y Cynulliad yn y brif ffrwd, fe all fod yn fwy effeithlon pe bai pob pwyllgor craffu ar bolisïau yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb statudol y Cynulliad, ac yn cynhyrchu adroddiad ar sut y maent yn cydymffurfio. | Byddai pob pwyllgor craffu ar bolisïau yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn rhoi gwybodaeth ar sut y mae'r rhaglenni gwaith y maent yn eu cynnal yn bodloni dyletswydd cydraddoldeb statudol y Cynulliad. |

**AN ABSOLUTE DUTY**

**ARGYMHELLION A FFYRDD POSIBL O'U GWEITHREDU YN Y CYNULLIAD**

| Rhif | Argymhelliad | Ffordd bosibl o'i weithredu | Cyfrifoldeb Grwp / Is-adran |
|---|---|---|---|
| **GOBLYGIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL (Parhad)** | | | |
| 5. | Dylid ffurfioli rôl a swyddogaethau'r fforymau ymgynghorol newydd a noddir gan y Cynulliad, megis Clymblaid Cenedlaethol Merched Cymru (WWNC), a'u cynnwys yn y Rheolau Sefydlog. | Gall hon fod yn broses drwsgl iawn. Pe byddai corff yn newid ei enw neu'n peidio â bod, byddai gofyn newid y Rheolau Sefydlog bob tro. Ar hyn o bryd rhaid i bedwar corff ymgynghorol y Cynulliad (h.y. Clymblaid Cenedlaethol Merched Cymru (WWNC), LGB Forum Cymru, Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan ac Anabledd Cymru) ddarparu adroddiadau chwarterol ar eu hamcanion/targedau i Uned Polisi Cydraddoldeb y Cynulliad, er mwyn i'r Uned gadw llygaid ar eu hynt cyn y telir cyllid y cam nesaf iddynt. Ymddengys mai dyma'r dull mwyaf effeithiol o hyd. | Amherthnasol. |

## AN ABSOLUTE DUTY

## ARGYMHELLION A FFYRDD POSIBL O'U GWEITHREDU YN Y CYNULLIAD

| Rhif | Argymhelliad | Ffordd bosibl o'i weithredu | Cyfrifoldeb Grwp / Is-adran |
|---|---|---|---|
| **GOBLYGIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL (Parhad)** | | | |
| 6. | Pan gyflwynir polisïau neu strategaethau newydd gerbron Cyfarfodydd Llawn y Cynulliad i'w trafod neu eu cymeradwyo, dylent gynnwys datganiad manwl yn dangos sut y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb statudol. | Rhoi mandad ar waith ledled y Cynulliad er mwyn bod pob datganiad polisi i'r Cyfarfod Llawn yn cyfeirio at sut y mae'n cydymffurfio â chyfle cyfartal. | Byddai'n rhaid i is-adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod holl ddatganiadau polisi a wnaed yn y Cyfarfod Llawn yn bodloni'r gofyniad hwn.<br><br>Byddai'n rhaid i'r Uned Polisi Cydraddoldeb baratoi a chyhoeddi canllawiau. |

## AN ABSOLUTE DUTY

## ARGYMHELLION A FFYRDD POSIBL O'U GWEITHREDU YN Y CYNULLIAD

| Rhif | Argymhelliad | Ffordd bosibl o'i weithredu | Cyfrifoldeb Grwp / Is-adran |
|---|---|---|---|
| **GOBLYGIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL (Parhad)** | | | |
| 7. | Dylid datblygu protocol ffurfiol a chyfrwymol ar ymgynghoriadau'r Cynulliad Cenedlaethol â grwpiau lleiafrifol. Bydd yn gosod isafswm safonau o ran ymgynghoriadau (yn ymwneud â meysydd megis amserlenni, adnoddau ac adborth i'r rhai sy'n cymryd rhan). | a) Yn ddiweddar creodd Uned Polisi Strategol y Cynulliad wefan ymgynghori a fydd yn helpu i wella effeithiolrwydd y Cynulliad wrth iddo gysylltu â'r rhai yr ymgynghorir â hwy. Mae canllawiau polisi diwygiedig yn ategu hyn ac maent yn ymdrin â materion mynediad a chael pobl i gymryd rhan.<br><br>Bydd Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad (RES) yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r holl is-adrannau ddiffinio eu polisïau a'u swyddogaethau, a dangos sut y byddent yn cyflawni'r ddyletswydd statudol o ran Hil. Yng ngoleuni'r profiad â gafwyd gyda'r fenter hon, byddwn yn ystyried sut y mae'n berthnasol i feysydd cydraddoldeb eraill. | a) Uned Polisi Strategol a'r Uned Polisi Cydraddoldeb<br><br>b) Yr Uned Polisi Cydraddoldeb |

**AN ABSOLUTE DUTY**

**ARGYMHELLION A FFYRDD POSIBL O'U GWEITHREDU YN Y CYNULLIAD**

| Rhif | Argymhelliad | Ffordd bosibl o'i weithredu | Cyfrifoldeb Grwp / Is-adran |
|---|---|---|---|
| **GOBLYGIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL (Parhad)** | | | |
| 8. | Lle'n bosibl, dylai polisïau Llywodraeth y Cynulliad nodi targedau cydraddoldeb sy'n benodol, yn fesuradwy ac sydd wedi'u cysylltu i amserlen ragnodedig. Bydd hyn yn hwyluso'r asesiad a wnaed yn y dyfodol o effeithiolrwydd mentrau gweithrediaeth Cymru. | a) Fel 7(b) uchod.<br>b) Rhoddir ystyriaeth i sut y gellid gwella'r system bresennol ar gyfer cynllunio busnes y Cynulliad fel y gall adlewyrchu'n well y targedau a'r amcanion sy'n berthnasol i faes cydraddoldeb. | a) Yr Uned Polisi Cydraddoldeb<br>b) Yr Uned Polisi Cydraddoldeb |